# Castell y Mis:



# Castell Dinefwr

1. Darllenwch dudalen 6-8 o ‘A Wyddoch chi am… Gestyll Cymru?’

# Cestyll
## A wyddoch chi ...



**C+A**

**CWESTIWN:** Beth oedd pwrpas castell?
**ATEB:** i amddiffyn tir yn erbyn gelynion, i fod yn symbol o bŵer ac awdurdod

- Mae'r gair Cymraeg 'castell' a'r gair Saesneg 'castle' yn dod o'r iaith Ladin 'castellum'.



- Mae trefi, pentrefi, strydoedd a thafarnau wedi'u henwi ar ôl cestyll:
  - tref Castell Newydd Emlyn,
  - pentref Casllwchwr, ger Abertawe
  - tafarn y Ship and Castle, Aberystwyth
  - Stryd y Castell, Caernarfon
- Beth am eich ardal chi?





**Ffaith!**

Mae mwy o gestyll yng Nghymru nag yn unrhyw wlad arall yn Ewrop

**Llinell amser**

| Cestyll tomen a beili | Cestyll carreg y Normaniaid | Cestyll Tywysogion Cymru | Cestyll y Brenin Edward | O gestyll i gartrefi | Canolfannau twristiaid |
|---|---|---|---|---|---|
| 1055 - | | 12fed ganrif - | 1277 - | 15fed ganrif - | 20fed ganrif - |

**Geirfa**

**gelyn/gelynion:** rhywun sydd eisiau gwneud drwg
**awdurdod:** yr hawl i roi gorchymyn i bobl eraill, neu i fynnu bod pobl eraill yn ufuddhau i chi



# Cestyll Cyntaf Cymru
## A wyddoch chi ...

- Daeth y Normaniaid yma o Ffrainc yn yr 11eg ganrif.
- Arglwyddi Normanaidd oedd y cyntaf i godi cestyll o garreg yng Nghymru.
- Cawson nhw ganiatâd Brenin Lloegr, William y Concwerwr:
  - i'w codi nhw ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr
  - i goncro Cymru gyda'u cestyll





- Cestyll tomen a beili oedd y cestyll cyntaf hyn sef:
  - tomen o bridd a thŵr o bren ar ei phen
  - beili neu gwrt, a ffos a ffens o'i amgylch i'w amddiffyn
- Cafodd dros 500 o gestyll tomen a beili eu hadeiladu yng Nghymru.
- Mae pob un o'r rhain wedi diflannu erbyn heddiw, ond mae'n bosibl gweld lle roedden nhw trwy awyrluniau.
- Tomen Castell Caerdydd yw'r uchaf yng Nghymru. Mae'n 10.87 metr o uchder.





- Beth oedd cryfderau a gwendidau cestyll tomen a beili?

| | |
|---|---|
| Y cryfderau | Roedden nhw'n hawdd ac yn rhad i'w codi. |
| Y gwendidau | Roedden nhw'n hawdd i'r gelyn eu rhoi ar dân ac roedd y pren yn pydru |

**Geirfa**

**awyrlun/awyrluniau:** lluniau wedi eu tynnu o'r awyr
**cryfder/cryfderau:** yr hyn sy'n gwneud i rywun neu rywbeth gael ei ddisgrifio'n gryf
**gwendid/gwendidau:** bod yn wan

**Ffaith!**

[illegible]



# O gestyll pridd i gestyll carreg

## A wyddoch chi . . .

- Ar ôl tipyn penderfynodd y Normaniaid godi cestyll carreg cryf i gymryd lle'r cestyll tomen a beili.
- Castell Cas-gwent yw'r castell carreg hynaf sydd wedi goroesi ym Mhrydain. Dechreuon nhw ei adeiladu yn 1067.
- Castell Dinas ger Talgarth, Powys, yw castell uchaf Cymru a Lloegr. Mae e dros 450 metr uwchlaw lefel y môr.
- Mae'r drws castell hynaf yn Ewrop yng Nghastell Cas-gwent.

**Ffaith!**


Y Ffleminiaid

- Adeiladodd y Ffleminiaid, sef pobl o ardal Fflandrys, sawl castell yn ne Penfro.
- Bu'n rhaid iddyn nhw ddianc rhag stormydd cas yn Fflandrys (Gwlad Belg heddiw), a dod i Gymru yn 1106.
- Roedd y cestyll yn dangos ble roedd y ffin rhwng tir y Ffleminiaid yn y de a thir y Cymry yn y gogledd.

**Geirfa**

**goroesi:** wedi parhau dros amser
**ward:** clos/buarth tu mewn i gastell
**ffin:** llinell rhwng dwy ardal

8



## Cestyll y Deheubarth, de-orllewin Cymru

**Castell Dinefwr**

- Mae Castell Dinefwr yn sefyll ar fryn uwchlaw dyffryn Tywi.
- Dyma brif ganolfan a llys yr Arglwydd Rhys, tywysog Deheubarth Cymru, yn y ddeuddegfed ganrif.
- Symudodd teulu Dinefwr o'r castell i Blas Newton ddiwedd yr Oesoedd Canol.
- Aeth y castell â'i ben iddo. Heddiw, mae'r adfeilion yn denu twristiaid.





# Castell y Mis:




## Castell Dinefwr

2. Gwyliwch a dysgwch gân, 'Yr Arglwydd Rhys-Arwr y Deheubarth' gan Mewn Cymeriad. Naill ai:

a. Ewch ati i greu dawns i gyd-fynd â'r gân
b. Ewch ati i greu cymeriad cartŵn yn null yr artist, Pete Fowler am yr Arglwydd Rhys.

# Cân Yr Arglwydd Rhys:



Fi yw Rhys ap Gruffydd,
Yr Arglwydd Rhys i chi.
Dwi'n ymládd yn ffyrnig,
Fel fy nhad a'n nhad-cu.

Dwi'n dod o'r deuheubarth
Dwi'n byw mewn castell mawr.
Dwi'n hoffi lladd Normaniaid
A'i bwrw nhw i'r llawr.



Achos fi yw…
Yr Arglwydd, Arglwydd, Arglwydd
Rhys x 3
Cofiwch fy enw i!

Dwi'n hoffi cipio cestyll
A'u llosgi bob yn un.
Arwr y deheubarth
Ydw i, dwi'n gawr o ddyn.

Dwi'n hoffi bwyta draenog,
Dwi'n hoffi yfed gwîn.
Dwi'n hoffi clywed cerddi
Sy'n canmol fi fy hun!

Achos fi yw…
Yr Arglwydd, Arglwydd, Arglwydd
Rhys x 3
Cofiwch fy enw i!


Fe drefnais i eisteddfod
Ym mil cant saith deg chwech.
Cantorion gore'r deyrnas
Ac ambell un fel…(wel, ddim yn dda iawn)

Y beirdd a'r telynorion
A gasglodd oll ynghyd
A nawr mae fy eisteddfod
Yn enwog ar draws y byd



Achos fi yw…
Yr Arglwydd, Arglwydd, Arglwydd
Rhys x 3
Cofiwch fy enw i!


# Chwaraeon y Mis:



## Taekwondo

Mae Cymru wedi profi llwyddiant yn y byd Taekwondo yn y Gemau Olympaidd ers blynyddoedd bellach. Ewch ati i greu ffeil-o-ffeithiau/ portread o un o'r canlynol:

- Jade Jones
- Beth Munro
- Lauren Williams







# Cwis yr Wythnos: 11.09.2023

1. Pwy sy'n cyflwyno'r rhaglen 'Boom' ar Stwnsh?

2. Enwch 5 cartŵn y gellir eu gweld ar Stwnsh.



3. Beth gelli di ennill pe byddet ti'n cystalu yng nghystadleuaeth Stwnsh Sadwrn y mis hwn?



Gwefan Defnyddiol

# Digwyddiad y Mis:














## Eisteddfod Genedlaethol

Beth ydych chi'n ei wybod am yr Eisteddfod Genedlaethol? Gallwch ddysgu mwy yma.
Un seremoni sy'n cael ei chynnal yn ystod yr wythnos yw seremoni'r Coroni. Mae'r bardd buddugol yn ennill coron sydd wedi ei dylunio yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod honno. Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe yn 2006. Mari Thomas wnaeth ddylunio'r goron ar gyfer yr Eisteddfod. Ymchwiliwch i goronnau'r Eisteddfod ar hyd y blynyddoedd. Ewch ati i ddylunio a chreu coron eich hun.









# Cwis yr Wythnos: 18.09.2023

1. Faint o gestyll sydd yng Nghymru?
   a. 261
   b. 421
   c. 641

2. Sawl Parc Cenedlaethol sydd yng Nghymru?
   a. 3
   b. 4
   c. 5

Pwynt bonws! Enwch hwy!

3. Pa mor hir yw Llwybr Arfordir Cymru?
   a. 780 milltir
   b. 870 milltir
   c. 78 milltir





Gwefan Defnyddiol

# Man aros y Mis:





## Craig y Nos


Ewch ati i greu naill ai:

a. Pamffled ar gyfer ymwelwyr â Chraig y Nos
b. Fideo i hyrwyddo Craig y Nos ar gyfer ymwelwyr.

Gwefannau addas:

Croeso.Cymru

Craigynoscastle.com





# Cwis yr Wythnos: 25.09.2023

1. Rhestrwch 8 lle sy'n dechrau gyda 'Pont'.

2. Rhestrwch 5 siop trin gwallt sydd yn yr ardal.

3. Rhestrwch 4 têc awê sy'n yr ardal leol.



